greentech

# Pen Caer Lan Solar Farm

PUBLIC CONSULTATION






SITE LOCATION PLAN

**Greentech is bringing forward proposals for a solar farm with an installed generating capacity of 25MWp located in the north-east of Neath Port Talbot County Borough on land at Pen Caer Lan Farm, Seven Sisters.**

The project covers approximately 29 hectares and would power 7,500 average Welsh households per annum, offsetting around 440,000 tonnes of $CO_2$ over the 40-year lifetime of the scheme in line with local and national targets, including net zero by 2050.

We are holding a statutory public consultation on our proposals from Friday 7 February until Monday 24 March 2025.



SITE LAYOUT PLAN

## Come and meet us

Seven Sisters Community Hall, Brynhyfryd Terrace, Seven Sisters, SA10 9BA on Tuesday 18 March from 4pm-7pm.

www.pencaerlansolarfarm.co.uk

## What is proposed?

The development includes the installation of a solar farm comprising ground mounted solar PV panels with a generating capacity of up to 25MWp including mounting framework, inverters, underground cabling, stock proof fence, CCTV, internal tracks and associated infrastructure, landscaping, biodiversity net benefit and environmental enhancements.

The proposal is temporary for a period of 40 years and fully reversible. Once the planning permission has expired all equipment would be removed from the site and the land returned to its current condition.

## Why solar?

Solar farms are a popular form of renewable energy generation especially as they operate without any form of government subsidy. They are also relatively unobtrusive and have limited effect on the environment compared to other forms of energy generation.

Solar farms are relatively simple and quick to construct and produce no emissions once operational. The maintenance requirements are very low so there will be hardly any vehicle movements to and from the site once construction is complete.

## Why here?

This site is surrounded, to a large extent, by dense hedgerows around the field boundaries which provides a good level of screening from public viewpoints. The existing electricity network has sufficient capacity to connect a solar farm of this scale at this location.

The site contains subgrade 4 and 5 Agricultural Land meaning no Best Most Versatile (BMV) agricultural land will be taken out of food production. The development will thus support the continued grazing of sheep as an additional income source for agricultural farming.

We have carried out a number of surveys and assessment across the site to develop our proposals and ensure the impact of development is minimal. This has included a Landscape and Visual Appraisal, a Noise Impact Assessment, a Glint and Glare Assessment, and a Flood Risk Statement. Further information can be found on the project website.

## Benefits of the proposals

### Addressing the climate emergency

The proposals will tackle the climate emergency and contribute towards Wales's transition to a low carbon economy, in support of net zero by 2050. The domestic supply of low carbon energy will boost energy security by reducing reliance on volatile foreign fossil fuel markets.

### Protecting the landscape

The proposals retain and enhance key landscape features such as trees and hedgerows to integrate the development into the landscape and protect residential amenity.

### Public Right of Way

A public footpath runs through the site, however the surfaces are in a poor condition with overgrown vegetation restricting access. If approved, the project will restore the pathways for public access by local residents.

### Delivering a net benefit for biodiversity

The scheme will deliver ecological enhancements to support local species and habitats by retaining trees, ditches and watercourses, regenerating grasslands, and introducing bird and bat boxes and habitat piles.

### Community benefit fund

A community benefit fund totalling around £12,500 per year, or £500,000 over the life of the solar farm, calculated at £500 per MW per annum (index linked), will be established to provide grant funding for local projects and initiatives. This represents a community benefit offering more than that offered by other comparable energy developments in the local area.

The community benefit fund will be open for applications at commissioning, with voluntary groups, charities and local community groups invited to apply.

## Have your say

We are keen to hear your views on our proposals. You can submit your feedback online or via the following methods:

Email us at **consultation@thirty47.co.uk**

Write to us at our Freepost address at FREEPOST TC CONSULTATION (no stamp required).

Contact us via freephone on **0800 699 0081** (Monday-Friday, 9am-5pm).

Fill in a feedback form at our public consultation event.


The closing date for your feedback is 23.59pm on **Monday 24 March 2025.**

For more information on the proposed Pen Caer Lan Solar Farm, please visit the project website **www.pencaerlansolarfarm.co.uk**

greentech

# Fferm Solar Pen Caer Lan

YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS






CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE

**Mae Greentech yn cyflwyno cynigion ar gyfer fferm solar gyda chapasiti cynhyrchu gosodedig o 25MWp yng ngogledd-ddwyrain Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar dir ar Fferm Pen Caer Lan, Blaendulais.**

Mae'r prosiect yn cwmpasu tua 29 hectar a byddai'n pweru 7,500 o aelwydydd Cymru ar gyfartaledd bob blwyddyn, gan wrthbwyso tua 440,000 tunnell o CO2 dros oes 40 mlynedd y cynllun yn unol â thargedau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys sero net erbyn 2050.

Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol ar ein cynigion o ddydd Gwener 7 Chwefror tan ddydd Llun 24 Mawrth 2025.



CYNLLUN GOSODIAD SAFLE

## Dewch i gwrdd â ni

Neuadd Gymunedol Blaendulais, Teras Brynhyfryd, Blaendulais, SA10 9BA ddydd Mawrth 18 Mawrth o 4pm-7pm.

www.pencaerlansolarfarm.co.uk

## Beth sy'n cael ei gynnig?

Mae'r datblygiad yn cynnwys gosod fferm solar yn cynnwys paneli solar ffotofoltaidd wedi'u gosod ar y ddaear gyda chapasiti cynhyrchu hyd at 25MWp gan gynnwys fframwaith mowntio, gwrthdroyddion, ceblau tanddaearol, ffens atal stoc, teledu cylch cyfyng, traciau mewnol a seilwaith cysylltiedig, tirweddu, budd net bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol.

Mae'r cynnig yn un dros dro am gyfnod o 40 mlynedd ac mae'n gwbl gildroadwy. Unwaith y bydd y caniatâd cynllunio wedi dod i ben byddai'r cynigion yn cael eu tynnu oddi ar y safle a byddai'n cael ei ddychwelyd i'w gyflwr presennol.

## Pam solar?

Mae ffermydd solar yn ffurf boblogaidd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn enwedig gan eu bod yn gweithredu heb unrhyw fath o gymhorthdal gan y llywodraeth. Maent hefyd yn gymharol anymwthiol ac yn cael effaith gyfyngedig ar yr amgylchedd o gymharu â mathau eraill o gynhyrchu ynni.

Mae ffermydd solar yn gymharol syml a chyflym i'w hadeiladu ac nid ydynt yn cynhyrchu unrhyw allyriadau unwaith y byddant yn weithredol. Mae'r gofynion cynnal a chadw yn isel iawn felly prin y bydd unrhyw symudiadau cerbydau i'r safle ac oddi yno unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau.

## Pam yma?

Amgylchynir y safle hwn, i raddau helaeth, gan wrychoedd trwchus o amgylch ffiniau'r caeau ac mae'n darparu lefel dda o sgrinio o olygfannau cyhoeddus. Mae gan y rhwydwaith trydan presennol ddigon o gapasiti i gysylltu fferm solar o'r raddfa hon yn y lleoliad hwn.

Mae'r safle'n cynnwys Tir Amaethyddol isradd 4 a 5 sy'n golygu na fydd unrhyw dir amaethyddol Mwyaf Amlbwrpas (BMV) yn cael ei dynnu allan o gynhyrchu bwyd. Bydd y datblygiad felly yn cefnogi parhad pori defaid fel ffynhonnell incwm ychwanegol ar gyfer ffermio amaethyddol.

Rydym wedi cynnal nifer o arolygon ac asesiadau ar draws y safle i ddatblygu ein cynigion a sicrhau bod effaith y datblygiad yn fach iawn. Mae hyn wedi cynnwys Arfarniad o'r Dirwedd a Gweledol, Asesiad Effaith Sŵn, Asesiad Disgleirdeb a Llewyrch, a Datganiad Perygl Llifogydd. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y prosiect.

## Manteision y cynigion

### Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn cyfrannu at drawsnewidiad Cymru i economi carbon isel, i gefnogi sero net erbyn 2050. Bydd y cyflenwad domestig o ynni carbon isel yn hybu diogelwch ynni trwy leihau dibyniaeth ar farchnadoedd tanwydd ffosil tramor cyfnewidiol.

### Gwarchod y dirwedd

Mae'r cynigion yn cadw a gwella nodweddion tirwedd allweddol megis coed a gwrychoedd er mwyn integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd a gwarchod mwynder preswyl.

### Hawl Tramwy Cyhoeddus

Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg trwy'r safle ond mae'r llwybrau mewn cyflwr gwael gyda llystyfiant wedi gordyfu yn cyfyngu mynediad. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y prosiect yn adfer y llwybrau mynediad cyhoeddus gan drigolion lleol.

### Darparu budd net i fioamrywiaeth

Bydd y cynllun yn cyflawni gwelliannau ecolegol i gefnogi rhywogaethau a chynefinoedd lleol trwy gadw coed, ffosydd a chyrsiau dŵr, adfywio glaswelltiroedd, a chyflwyno blychau adar ac ystlumod a phentyrrau o gynefinoedd.

### Cronfa budd cymunedol

Bydd cronfa budd cymunedol o tua £12,500 y flwyddyn, neu £500,000 dros oes y fferm solar, wedi'i chyfrifo'n £500 y MW y flwyddyn (cysylltiedig â mynegai), yn cael ei sefydlu i ddarparu cyllid grant ar gyfer prosiectau a mentrau lleol. Mae hyn yn cynrychioli budd cymunedol sy'n cynnig mwy na'r hyn a gynigir gan ddatblygiadau ynni tebyg eraill yn yr ardal leol.

Bydd y gronfa budd cymunedol ar agor ar gyfer ceisiadau adeg comisiynu, gyda grwpiau gwirfoddol, elusennau a grwpiau cymunedol lleol yn cael eu gwahodd i wneud cais.

## Dweud eich dweud

Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar ein cynigion. Gallwch gyflwyno eich adborth ar-lein neu drwy'r dulliau canlynol:

E-bostiwch ni yn **consultation@thirty47.co.uk**

Ysgrifennwch atom at ein cyfeiriad Rhadbost yn FREEPOST TC CONSULTATION (nid oes angen stamp).

Cysylltwch â ni drwy radffôn a **0800 699 0081** (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-5pm).

Llenwch ffurflen adborth yn ein digwyddiad ymgynghori cyhoeddus

Y dyddiad cau ar gyfer eich adborth yw 23.59pmddydd **Llun 24 Mawrth 2025.**

I gael rhagor o wybodaeth am Fferm Solar arfaethedig Pen Caer Lan, ewch i wefan y prosiect **www.pencaerlansolarfarm.co.uk**